

*The means:* newid llefydd er gwell.

# Llanymddyfri

## Cynllun Twf Economaidd

Awst 2021 (terfynol)

Swyddfa Cymru
Uned 3, 21-25 West End, Llanelli,
Sir Gaerfyrddin SA15 3DN
Ffôn: +44 (0)1554 780170

Swyddfa Llundain
1st Floor, 28 Marshalsea Road,
London, SE1 1HF
Ffôn: +44 (0)20 7403 4135

www.themeans.co.uk

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Contents


Gosod y cyd-destun ..... 3
Llanymddyfri – gwireddu ein potensial i dyfu ..... 3
Arfarniad o'r treflun – nodweddion, priodoleddau ac asedau'r lle (mapio/delweddu) ..... 4
Arfarniad o'r treflun – nodweddion, priodoleddau ac asedau'r lle (ffotograffiaeth/delweddu) ..... 5
Heriau a chyfleoedd ..... 6
Ein Gweledigaeth o ran Twf Economaidd ..... 7
Blaenoriaethau o ran Twf Economaidd ..... 7
Safleoedd y Prosiectau â ..... 8
Blaenoriaeth Arfaethedig ..... 8
Blaenoriaethau o ran Twf Economaidd, Prosiectau a Chynllunio Adferiad ..... 9
Blaenoriaeth 1: Cefnogi cydnerthedd busnesau a'u twf yn y dyfodol ..... 9
Prosiectau â blaenoriaeth ..... 10
Safle blaenorol Ysgol Rhys Prichard ..... 10
MakerSpace Llanymddyfri ..... 10
Ystad Ddiwydiannol Banc yr Eglwys ..... 10
Blaenoriaeth 2: Ailfywiogi proffil a chynnyrch twristiaeth y dref ..... 11
Prosiectau â blaenoriaeth ..... 12
Hwb Beicio Llanymddyfri ..... 12
Parc Antur Llanymddyfri ..... 12
Menter Llety Llanymddyfri ..... 12
Addasu Pecyn Cymorth Digwyddiadau Llanymddyfri ..... 13
Marchnata Llanymddyfri ..... 13
Stondin/hysbysfwrdd digidol ..... 13
Rhwydwaith Twristiaeth Cymunedol Llanymddyfri ..... 14
Blaenoriaeth 3: Ailddychmygu canol y dref ..... 15
Prosiectau â blaenoriaeth ..... 16
Drysau Agored Llanymddyfri ..... 16
Blaenoriaeth 4: Seilwaith (digidol a datblygu) ..... 17
Prosiectau â blaenoriaeth ..... 18
Hyrwyddo a chefnogi safleoedd tai ..... 18
Blaenoriaeth 5: Pobl a Sgiliau – galluogi pobl i gyrchu gwaith a datblygu sgiliau i wireddu eu potensial ..... 19
Blaenoriaeth Drawsbynciol: Cyfathrebu, cydweithredu a grymuso ..... 20
Llywodraethu, Cyllido a Chyflawni ..... 21
Mentrau newydd a chymorth busnes ..... 21
Atodiad 1: Sir Gaerfyrddin Wledig ..... 22
Atodiad 2: Crynodeb economaidd-gymdeithasol ar gyfer Llanymddyfri ..... 23

## Gosod y cyd-destun

Mae'r cynllun hwn yn benllanw cyfres o ddogfennau ac adroddiadau technegol a baratowyd (cyn ac ar ôl COVID) i ennyn, llywio ac ysgogi trafodaeth ynghylch cyfeiriad Cynllun Twf Economaidd ar gyfer Llanymddyfri.

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gwireddu ein potensial i dyfu
- Heriau a chyfleoedd
- Ein Gweledigaeth o ran Twf Economaidd
- Blaenoriaethau o ran Twf Economaidd
- Prosiectau â blaenoriaeth, a llunio cynlluniau gweithredu
- Llywodraethu, Cyllido a Chyflawni

Mae'n tynnu ar amrywiaeth o Adroddiadau Technegol, gan gynnwys:

- Cynllun Drafft ar gyfer Adfer a Gweithredu'r Economi Leol (dyfyniad/crynodeb o'r papur)
- Cynllun Drafft ar gyfer Adfer a Gweithredu'r Economi Leol
- Asesu effaith COVID-19 ar economi leol y dref
- Crynodeb o'r Papur Sefyllfa a Thystiolaeth
- Crynodeb o'r Adroddiad Tystiolaeth o ran Perfformiad, Hyfywedd a Bywiogrwydd
- Dadansoddiad Lefel Uchel o'r Cynllun Trefol

## Llanymddyfri – gwireddu ein potensial i dyfu

Mae Llanymddyfri yn dref farchnad a chymuned brydferth, dawel yng Ngogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin. Mae'n ffinio ag Afon Tywi wrth gydlifiad Afon Brân ac Afon Gwydderig a chyffordd ffyrdd yr A40 a'r A483. Mae'r dref ym mhen gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – y Mynydd Du a Geoparc Fforest Fawr – ac ym mhen deheuol Mynyddoedd Cambria.

Roedd datblygiad a ffyniant cynnar y dref yn seiliedig ar ei rôl o fod yn dref porthmyn, wedi'i lleoli lle roedd tri llwybr porthmyn hanesyddol arwyddocaol yn croesi. Cadarnhaodd hyn nid yn unig ei chysylltiadau agos â'r gymuned amaethyddol, ond hefyd ei darpariaeth o gyfleusterau yn dref farchnad. Llanymddyfri hefyd oedd y man lle y sefydlwyd Banc yr Eidion Du, a gafodd ei ddatblygu'n wreiddiol i ddarparu cyfleusterau bancio ar gyfer y porthmyn.

Mae'n adnabyddus fel lleoliad twristiaid, ac mae iddi apêl eang. Mae'r dref yn ganolfan ddelfrydol ar gyfer archwilio rhan orllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae ei hagosrwydd at y Mynydd Du, Coedwig Crychan, Cwm Rhaeadr, Afon Tywi, y Warchodfa Natur yng Ngwenffrwd-Dinas, cronfa ddŵr Llyn Brianne a Mynyddoedd Cambria yn golygu ei bod yn ardal ddelfrydol ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth, yn ogystal ag yn hafan ar gyfer y rheiny sy'n caru natur.


Mae hefyd yn atynfa i haneswyr brwdfrydig oherwydd ei threftadaeth porthmona, ac am ei bod yn gartref i weddillion Castell Llanymddyfri, sy'n deillio o'r 12fed ganrif, yn gyn-gartref i Llywelyn ap Gruffydd Fychan (un o gefnogwyr allweddol Owain Glyndŵr, sef dewis y bobl i fod yn Dywysog Cymru), Twm Siôn Cati, a'r awdur a'r bardd William Williams Pantycelyn (‘Arglwydd, arwain trwy'r anialwch’).

Mae Coleg Llanymddyfri wedi'i leoli ger canol y dref, ac mae'n parhau i chwarae rôl bwysig yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Gyda nifer y preswylwyr yn cynyddu a'i statws o fod yn brif Ysgol Rygbi Cymru yn cryfhau (trwy bartneriaeth rhwng Elite Regional ac Undeb Rygbi Cymru), gall y coleg chwarae rôl bwysig o ran marchnata, hyrwyddo ac annog y rheiny sy'n mynd yno (myfyrwyr, staff a rhieni) i ymweld â'r dref.

Fel yn achos nifer o drefi gwledig yn y DU, mae Llanymddyfri yn wynebu heriau newydd sy'n deillio o Brexit, proffidioldeb dirywiol ffermydd, poblogaeth sy'n heneiddio, y newid yn yr hinsawdd a diffyg datblygu, ymhlith pethau eraill. Ond mae yna hefyd gyfleoedd newydd. Yn benodol, o'i reoli'n briodol, mae gan y chwyldro digidol y gallu i drawsnewid yr economi wledig, gwrthdroi blynyddoedd o danberfformio, a gwella ansawdd bywyd. A gall cynnal Eisteddfod yr Urdd (wedi'i gohirio o 2021 i 2023) am y tro cyntaf (gyda phwyslais sylweddol ar y Gymraeg, ynghyd â gweithgarwch cymunedol/rôl cymorth busnes hollbwysig ar gyfer Menter Dinefwr) godi proffil y dref a sicrhau budd economaidd.



# Arfarniad o'r treflun – nodweddion, priodoleddau ac asedau'r lle (mapio/delweddu)




**Safleoedd y Prosiectau â Blaenoriaeth Arfaethedig**

P1-1: Safle blaenorol Ysgol Rhys Prichard

P1-2: MakerSpace Llanymddyfri

P1-3: Ystad Ddiwydiannol Banc yr Eglwys

P2-1: Hwb Beicio Llanymddyfri

P2-2: Parc Antur Llanymddyfri

P2-3: Menter Llety Llanymddyfri

P2-4: Addasu Pecyn Cymorth Digwyddiadau Llanymddyfri

P2-5: Marchnata Llanymddyfri

P2-6: Stondin/hysbysfwrdd digidol

P2-7: Rhwydwaith Twristiaeth Cymunedol Llanymddyfri

P3-1: Drysau Agored Llanymddyfri

P4-1: Hyrwyddo a chefnogi safleoedd tai

## Arfarniad o'r treflun – nodweddion, priodoleddau ac asedau'r lle (ffotograffiaeth/delweddu)


Castell Llanymddyfri a cherflun i goffáu Llywelyn ap Gruffydd Fychan


Y Gannwyll, Amgueddfa Llanymddyfri a Phorth Ymwelwyr


Ysgol newydd Ysgol Gynradd Gymunedol Rhys Prichard


Adeilad Neuadd y Dref o Sgwâr y Farchnad


Parêd siopau Stryd Lydan


Ffrynt y stryd ar Sgwâr y Farchnad


Unedau manwerthu ar hyd Stryd Cerrig


Safle blaenorol Ysgol Rhys Prichard


Ysbyty Llanymddyfri


Coleg Llanymddyfri


Yr olygfa o'r Stryd Fawr (Y Ganolfan Grefftau a'r Caffi)



Y Stryd Fawr (parhad) – yr olygfa i'r Dwyrain

## Heriau a chyfleoedd

Mae Llanymddyfri yn dref wledig wedi'i lleoli yng Ngogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin. Mae'r dref yn ward Llanymddyfri. Mae'r ward yn ymestyn dros 115.80 $km^2$, sy'n cyfrif am 4.9% o arwynebedd Sir Gaerfyrddin. Mae ei phoblogaeth, sef 2,551 (lefel y ward) yn 1.3% o boblogaeth y sir.

Mae microfentrau a mentrau bach yn dominyddu Llanymddyfri. Ochr yn ochr â sectorau traddodiadol megis amaethyddiaeth, mae nifer o ddiwydiannau (twristiaeth, addysg, iechyd a chreadigol) yn mynd ati'n gynyddol i ffurfio asgwrn cefn yr economi wledig. Er mai dim ond canran fach y mae'n ei chyflogi, mae'r sector amaeth yn bwysig. Mae'n wynebu rhywfaint o ansicrwydd yng nghyd-destun Brexit.

Mae gan yr ardal gyfran uchel o 'weithgareddau llety a gwasanaeth bwyd', 'addysg' a'r 'celfyddydau, adloniant a hamdden'. Mae nifer y swyddi manwerthu, gweithgynhyrchu ac adeiladu yn amlwg yn llai.

Mae hunangyflogaeth yn cyfrif am ganran uwch o lawer na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.

Mae'r cyfraddau cyflogaeth yn is, yn ogystal â gweithgarwch economaidd, ond mae diweithdra hefyd yn is. Mae myfyrwyr a phobl sydd wedi ymddeol yn cyfrif am dros hanner y rhai sy'n economaidd anweithgar.

Mae cyfran uchaf y swyddi yn Llanymddyfri yn y sectorau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (mae Ysbyty Llanymddyfri yn sefydliad angor pwysig sydd â photensial i estyn ei wasanaethau), wedi'u dilyn gan addysg. Mae Ymddiriedolaeth Cymunedau Elidyr (Coleg Elidyr yn flaenorol) yn Rhandirmwyn, i'r gogledd o Lanymddyfri, yn gyflogwr lleol sylweddol sydd â 150 o staff. Mae crefftau medrus yn cyfrif am bron chwarter y swyddi. Mae yna nifer sylweddol yn llai o swyddi proffesiynol a thechnegol cysylltiedig a swyddi gweinyddol ac ysgrifenyddol.

Mae canol y dref yn rhan hanfodol o wead economaidd a chymdeithasol yr ardal. Mae wedi colli nifer sylweddol o siopau a gwasanaethau, ond mae wedi cadw craidd o wasanaethau ac asedau cyhoeddus. Mae gan Goleg Llanymddyfri, sy'n ysgol breswyl ac yn ysgol ddydd gydaddysgol annibynnol, statws sy'n tyfu o ran bod yn brif Ysgol Rygbi Cymru.

Mae diboblogi a phoblogaeth sy'n heneiddio yn broblemau mawr mewn dwy ffordd: gallai poblogaeth oedran gweithio fach gyfyngu ar dwf economaidd; bydd cynnydd yn y boblogaeth ymddeoledig yn cynyddu'r galw am ofal ac iechyd cymdeithasol. Er 2011, mae poblogaeth Llanymddyfri wedi gostwng 4.8% o gymharu â chynnydd o 2% ledled y sir. Mae dwysedd poblogaeth yr ardal, sef 22 o bobl fesul $km^2$, yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer y sir, sef 79.

Mae yna ddiffyg o ran adeiladu tai hapfasnachol a fawr ddim datblygiadau newydd yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf. Er bod y galw wedi bod yn gyfyngedig ers i'r ysgol uwchradd gau, mae'r galw hwnnw wedi cynyddu'n ddiweddar yn ystod y pandemig, yn ôl Clee Thompkinson Francis.

Mae'r risg o lifogydd yn parhau i effeithio ar gyfleoedd datblygu a'r mesurau lliniaru angenrheidiol.

**Effaith bosibl COVID**

Trwy allosod canran y swyddi sy'n wynebu risg yn Sir Gaerfyrddin (24-26%) ar gyfer Llanymddyfri, awgrymir y byddai 323-350 o'r 1,345 o swyddi cyflogaeth mewn perygl.

O blith y 1,345 o swyddi cyflogeion a chyflogaeth, mae 230 o swyddi cyflogeion (20%) a 280 o swyddi cyflogaeth (21%) yn y sectorau sy'n wynebu'r risg fwyaf (fel y'u dosberthir gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2020).

Ystyrir bod yna swyddi penodol yn Llanymddyfri sy'n wynebu'r risg fwyaf: Gweinyddol ac ysgrifenyddol; Gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill; Gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid; Galwedigaethau elfennol. Mae'r galwedigaethau hyn 'sy'n wynebu'r risg fwyaf' yn cyflogi dros 37% o'r gweithlu. Yr hunangyflogedig sydd wedi cael eu taro waethaf. Mae'r cyfyngiadau symud wedi effeithio'n uniongyrchol ar y broses o greu busnesau, yn ogystal ag ar adferiad yn y sector.

Mae cyfran uchel o gyflogaeth y dref mewn sectorau yr effeithiwyd arnynt gan bandemig COVID-19: llety, manwerthu nwyddau nad ydynt yn fwyd, tafarnau a bwytai, a'r celfyddydau a hamdden. Gallai rhai o nodweddion strwythurol yr ardal, megis sylfaen fwy gwasgaredig y boblogaeth a thraddodiad o weithio gartref mewn ardaloedd gwledig, fod yn ffynhonnell cadernid yn ystod yr argyfwng. Ond gall canlyniadau gosod rhagor o gyfyngiadau caeth yn ystod yr argyfwng hwn o ran cadw pellter cymdeithasol a theithio personol, ynghyd â phwysigrwydd yr economi ymwelwyr i'r dref, fod yn ddifrifol.

Er gwaethaf y risgiau amlwg hyn, yr effaith y mae'r mesurau yn ei chael ar sectorau penodol, a'r ffaith bod nifer o fusnesau wedi gorfod cau am y cyfnod cyfan, y teimlad, o leiaf yn ystod y cyfnod hwn, yw bod pobl yn **ymateb yn eithaf da i'r argyfwng ac yn 'dod i ben'.** Mae trafodaethau â thrigolion lleol, gan gynnwys Cyngor Tref Llanymddyfri, wedi amlygu bod y darlun yn un cymysg ond bod cymorth y llywodraeth a chynnydd mewn masnach wedi **cynnal hwyliau cymharol gadarnhaol**. Mabwysiadodd rhai busnesau newidiadau yn gynnar; gan ddarparu gwasanaethau dosbarthu i'r cartref a thecawê. Ond mae ansicrwydd o ran chwaraeon a digwyddiadau yn cyfyngu ar opsiynau Clwb Rygbi Llanymddyfri, ac mae'r canllawiau o ran ynysu, ynghyd â'r ofnau ynghylch y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, wedi effeithio ar wirfoddoli yn Amgueddfa Llanymddyfri a'r Porth Ymwelwyr.

**Edrych i'r Dyfodol**

Mae **proffil sgiliau y dref** yn heriol mewn perthynas â chefnogi busnesau sy'n tyfu. Mae cyflogau isel yn effeithio ar ddewis, ac yn adlewyrchiad o'r sectorau cyflog isel sy'n dominyddu'r ardal.

Mae'n rhaid i'r **cyflenwad sgiliau a llafur** yn yr ardal ddiwallu anghenion busnesau, 'nawr ac yn y dyfodol. Mae tai addas a darpariaeth gymdeithasol yn hanfodol i ddenu a chadw teuluoedd. Dylai adeiladu cartrefi newydd o ansawdd a safon uchel, ochr yn ochr ag ailddatblygu eiddo gwag sy'n fforddiadwy i bobl leol, gael ei annog a'i hwyluso, a denu pobl i fyw a gweithio yn y dref. Gallai hyn gynnwys camau i arwain cynlluniau sy'n mynd i'r afael â gwaith sydd wedi'i oedi ar safleoedd tai.

Dylai'r **dref fod yn ganolbwynt** camau i gryfhau'r economi leol. Yn ogystal â denu cyfuniad o ddefnydd masnachol ochr yn ochr â defnydd manwerthu traddodiadol, dylid hefyd ymdrechu i annog rhagor o bobl i ddod i'r dref, er enghraifft trwy raglen bendant o ddigwyddiadau.

Mae'r **economi ymwelwyr** yn sector sy'n cynnig cyfleoedd allweddol. Mae lleoliad y dref, wrth ymyl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn darparu cyfleoedd i gynyddu ei chyfran o'r buddion economaidd. Trwy ddatblygu cynlluniau i frandio Llanymddyfri yn Hwb Beicio, mae'n bosibl y gellid datblygu'r segment hwn o'r farchnad sydd â gwerth uchel. Fodd bynnag, mae natur dymhorol y farchnad a diffyg llety o ansawdd yn gyfyngiad o ran cynyddu'r farchnad gwyliau gartref. Mae'r proffil a'r buddion economaidd yn sgil cynnal Eisteddfod yr Urdd 2023 yn sylweddol. Mae angen i'r gymuned fusnes fod yn ymwybodol, yn effro ac yn barod am y cyfle.

Mae **seilwaith** yn gydran hanfodol, sy'n cynnwys safleoedd a thir ac adeiladau cyflogaeth, tai, a mynediad at drafnidiaeth wledig. Bydd band eang a dulliau cyfathrebu symudol effeithiol, mannau gwaith a gwasanaethau lleol, yn hanfodol o ran datblygu economi gynaliadwy. Dylai camau gael eu cymryd i ddatblygu seilwaith busnes o safon er mwyn gwireddu potensial yn y dyfodol a mynd i'r afael â chyfyngiadau mewn perthynas â gofod gwaith cyfyngedig, y risg o lifogydd a chysylltedd digidol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod darpariaeth ffisegol yn cael ei gwneud ar gyfer busnesau bach a micro, gan gynnwys unedau hybu a 'MakerSpaces'.

## Ein Gweledigaeth o ran Twf Economaidd

Mae ein Cynllun Twf Economaidd yn canolbwyntio ar sut i gefnogi a datblygu economi wledig Llanymddyfri, gan gynnal ei hymdeimlad amlwg o le ac amgylchedd ansawdd uchel ar yr un pryd. Ar lawer ystyr, caiff hyn ei bennu gan y math o dref yr ydym am i Lanymddyfri fod yn 2030, dyweder. Roedd y dull Deep Place o ymdrin â Lanymddyfri[1] yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer cymdeithas y gellid ei chreu i gyflawni cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn ystod y genhedlaeth nesaf: cymdeithas lle y mae yna gynnydd sylweddol mewn lleoleiddio o ran gweithgarwch economaidd, mwy o degwch cymdeithasol o ran canlyniadau economaidd, a gwell integreiddio o ran pobl a'r amgylchedd.

Mae ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau hirdymor newydd yn seiliedig ar asesiad o'r effeithiau lleol, ac yn darparu sylfaen i greu sefydlogrwydd, twf, buddsoddiad a swyddi yn yr hirdymor ar gyfer pobl a busnesau Llanymddyfri.

**Ein gweledigaeth yw y bydd Llanymddyfri yn borth i Fannau Brycheiniog, Mynyddoedd Cambria a Sir Gaerfyrddin, ac yn gyrchfan o ddewis sy'n darparu diwylliant hamdden awyr agored dynamig, cynaliadwy, a chroeso cynnes.**

**Mae Llanymddyfri yn dref farchnad enghreifftiol a chynaliadwy sy'n datblygu. Mae'n cynnal cymuned fusnes lewyrchus ac yn cefnogi ei thrigolion. Mae ganddi enw da am fod yn gydnerth, gyda'i golygon tuag at allan.**

**Mae hygyrchedd y dref, ynghyd ag ansawdd yr amgylchedd, yn denu busnesau newydd, busnesau deilliedig a microfusnesau sy'n tyfu iddi. Mae'r 'cwr gwneuthurwyr' yn y dref yn datblygu cenhedlaeth newydd o wneuthurwyr, dylunwyr, peirianwyr ac entrepreneuriaid creadigol.**

**Mae canol adferedig y dref yn ganolog i fywyd cymunedol gan ei fod yn cynnig cymysgedd o ran defnydd masnachol, a hynny ochr yn ochr â defnydd manwerthu traddodiadol, ac mae'r cyfan yn cael ei gefnogi gan raglen reolaidd o ddigwyddiadau arloesol.**

**Mae tai newydd, sy'n adlewyrchu cymeriad ac atyniad unigryw yr ardal wledig oddi amgylch, yn denu teuluoedd a phobl ifanc i adleoli i'r dref, sy'n cael ei chynnal â seilwaith digidol a thrafnidiaeth rhagorol.**

[1] *The Llandovery Deep Place Study: A Pathway for Future Generations*, Dr Mark Lang 2019

## Blaenoriaethau o ran Twf Economaidd

Yn ogystal ag ymateb i COVID-19, mae'r byd yn esblygu ac mae Llanymddyfri ar drothwy newid mawr: nid yw'r pwysau ar adnoddau, poblogaeth sy'n heneiddio, y newid yn yr hinsawdd na'r chwyldro digidol yn ddim ond rhai o'r problemau a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Mae ein Blaenoriaethau o ran Twf Economaidd yn canolbwyntio ar gyflawni twf economaidd lleol cynaliadwy a rennir gan bawb, gan amddiffyn, cynnal a dathlu ansawdd uchel ein hamgylchedd naturiol ar yr un pryd. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, aethom ati i nodi **pum Thema â Blaenoriaeth, ynghyd â Blaenoriaeth Drawsbynciol**, a amlinellir yn yr adran hon ac sy'n darparu fframwaith ar gyfer ein camau gweithredu â blaenoriaeth.

Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu COVID-19 a'i effaith enfawr ar fywyd economaidd a chymdeithasol. Mae'r pandemig wedi newid blaenoriaethau a modelau busnes fel eu bod yn canolbwyntio ar unwaith ar oroesiad ac adferiad busnesau. Felly, blaenoriaeth uniongyrchol fydd gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus a'r gymuned fusnes i liniaru effeithiau COVID-19 ar yr economi leol a manteisio ar gyfleoedd, yn enwedig o ran cyrchu cyllid newydd, wrth iddynt ddod i'r amlwg. Er bod y cynllun ar gyfer Llanymddyfri yn canolbwyntio, yn gywir ddigon, ar dwf economaidd a'r angen i feithrin a thrawsnewid yr economi leol mewn ymateb i'r 'normal newydd', ac yn myfyrio ar y tueddiadau tymor hirach sy'n mynd y tu hwnt i'r amgylchiadau presennol, mae hefyd yn nodi ystod o ofynion ac ymatebion uniongyrchol i'r argyfwng hwn.

**Blaenoriaeth 1:** Cefnogi cydnerthedd busnesau a'u twf yn y dyfodol

**Blaenoriaeth 2:** Ailfywiogi proffil a chynnyrch twristiaeth y dref

**Blaenoriaeth 3:** Ailddychmygu canol y dref

**Blaenoriaeth 4:** Seilwaith (Digidol a Datblygu)

**Blaenoriaeth 5:** Pobl a Sgiliau – galluogi pobl i gyrchu gwaith a datblygu sgiliau i wireddu eu potensial

**Blaenoriaeth Drawsbynciol:** Cyfathrebu, cydweithredu a grymuso

Mae'r blaenoriaethau o ran buddsoddi yn seiliedig ar dair blaenoriaeth sirol drawsbynciol: Cysylltedd digidol tra dibynadwy, diwylliant digidol a sgiliau digidol; Economi a chymorth teg a chyfartal i'r Gymraeg a diwylliant Cymru; Economi a sgiliau gwyrdd.

Disgrifir camau gweithredu ar gyfer adferiad a thwf yn yr adran ganlynol ar gyfer pob thema â blaenoriaeth, ynghyd â gwybodaeth fanylach am brosiectau trawsnewidiol.



# Safleoedd y Prosiectau â Blaenoriaeth Arfaethedig



# Blaenoriaethau o ran Twf Economaidd, Prosiectau a Chynllunio Adferiad

## Blaenoriaeth 1: Cefnogi cydnerthedd busnesau a'u twf yn y dyfodol

Mae microfentrau a mentrau bach yn dominyddu Llanymddyfri, sy'n hanfodol i gynaliadwyedd yr economi leol. Ochr yn ochr â sectorau traddodiadol megis amaethyddiaeth, mae nifer o ddiwydiannau (twristiaeth, addysg, iechyd a chreadigol) yn mynd ati'n gynyddol i ffurfio asgwrn cefn yr economi wledig. Mae angen meithrin ac annog hyder busnesau a hwyluso twf yn yr economi leol, a hynny'n benodol ymhlith y sectorau allweddol hyn. Dylai camau gael eu cymryd i ddatblygu seilwaith busnes o safon er mwyn gwireddu potensial yn y dyfodol a mynd i'r afael â chyfyngiadau.

**Mae angen cefnogi dulliau cynaliadwy ac amgylcheddol sensitif o ddatblygu menter leol. Bydd creu hwb busnes a 'MakerSpace' cost isel, sy'n darparu cyfleusterau busnes ar gyfer pobl hunangyflogedig leol, busnesau newydd a busnesau bach, yn biler canolog o'r thema hon.**

Er na all maint ymyrraeth y Llywodraeth, mewn ymateb i bandemig COVID-19, gael ei ddisodli ar lefel leol, gall y cyngor a phartneriaid gefnogi busnesau trwy roi mynediad at gyngor a gwybodaeth (gwasanaethau, cyngor a chymorth i fusnesau), ochr yn ochr â dull/rhaglen fwy targededig. Gallai'r rhaglen ganolbwyntio ar: Sicrhau a chynnal buddsoddiad; Cymorth sector-benodol; Arloesedd a thwf; Busnesau sydd newydd ddechrau/busnesau yn y camau cynnar. Gellir defnyddio cronfa ddata cysylltiadau yr awdurdod lleol (sydd wedi'i hatgyfnerthu'n sylweddol yn ystod y pandemig) yn y ffordd orau ar adeg pan nad yw'r sianeli i gyrraedd cynulleidfaoedd targed erioed wedi bod yn fwy amrywiol a phwerus.
Bydd penodi Swyddogion Trefi Marchnad gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn rhan o'r Fenter Deg Tref, yn adnodd pwysig a defnyddiol.
Dylid ystyried ailsefydlu Siambr Fasnach Llanymddyfri a'r Cylch a/neu sefydlu tîm Cynllun Twf Economaidd.

| Amcanion a Chanlyniad | Camau Gweithredu | Adnodd Dangosol | Gweithio gyda |
|---|---|---|---|
| • **Sicrhau bod busnesau yn ymwybodol o raglenni cymorth cenedlaethol, rhanbarthol a sirol ac yn eu cyrchu**<br>• **Cefnogi busnesau yn y dref i ddechrau arni, buddsoddi a ffynnu mewn sectorau glân, gwerth uchel sy'n tyfu**<br>• **Rhoi hwb i adferiad y sector twristiaeth a lletygarwch yn y dref**<br><br>**Canlyniad Allweddol – cyfradd methiant busnesau yn gostwng a swyddi'n cael eu diogelu** | Adolygu ac asesu effaith mesurau cymorth ar fusnesau lleol | Mewn nwyddau (Cyngor Sir Gâr) | Cyngor Sir Gâr – Cymorth Busnes a grwpiau Adfer Busnesau<br>Cyngor Tref Llanymddyfri<br>Y Tîm Twf<br>Busnes Cymru<br>Croeso Sir Gâr<br>Menter Dinefwr |
| | Penodi Swyddogion Trefi Marchnad | i'w gadarnhau | |
| | Lansio ymgyrch cymorth busnes integredig i sicrhau bod busnesau'n gwybod sut i gyrchu'r cymorth y mae arnynt ei angen i adnewyddu, ailffurfio a chynnal eu cynlluniau busnes | £2,000 | |
| | Cynnal gŵyl fenter undydd i ddarparu cymorth ar gyfer busnesau gwledig bach a rhannu profiadau ysbrydoledig â nhw. | £2,500 | |
| | Datblygu a gweithredu menter gaffael leol rhwng busnesau yn Llanymddyfri, gan lunio cyfeiriadur busnesau ar-lein, cyfeiriadur gwybodaeth i dwristiaid, a nodi mannau diddorol i ymweld â nhw ac archwilio'r hanes lleol cyfoethog. Cysylltu â'r adroddiad ar Brosiect Economi Sylfaenol Llanymddyfri, a'i adolygu | £5,000 | |
| | Archwilio a gwerthuso hyfywedd hirdymor cynigion twf ar gyfer safle blaenorol Ysgol Gynradd Rhys Prichard | i'w gadarnhau | |
| | Parhau i addasu Canolfan Grefftau a Chaffi Llanymddyfri at ddibenion gwahanol, a hynny er mwyn darparu mannau cydweithio, stiwdios bach ac ardal manwerthu. | £200,000 | |
| | Asesu dichonoldeb sefydlu hwb busnes gwledig yn y dref | £8,000 | |
| | Ymchwilio i gyfleoedd (a liferi cyllido) i gyflymu buddsoddiad yn y seilwaith er mwyn datgloi tir i'w ddatblygu gerllaw Ystad Ddiwydiannol Banc yr Eglwys. | i'w gadarnhau | |
| | Llunio papur i lywio a chefnogi dyfodol y Mart. Cynllun cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Goblygiadau ac ymateb addas i'r dirywiad mewn ffermio da byw. Effaith bosibl Brexit. | i'w gadarnhau | |

# Prosiectau â blaenoriaeth

## Safle blaenorol Ysgol Rhys Prichard

**Disgrifiad**

Archwilio a gwerthuso hyfywedd hirdymor cynigion twf ar gyfer safle blaenorol Ysgol Gynradd Rhys Prichard.

Mae trafodaethau ar y gweill â phartïon sydd â diddordeb i archwilio cyfleoedd a fydd yn darparu budd hirdymor i'r dref a'r cyffiniau.

**Sail Resymegol**

Mae safle'r ysgol yn un o asedau'r Cyngor Sir, ac mae yna bwyslais cryf o ran polisïau ar ddefnyddio asedau i ysgogi twf economaidd, yn benodol datblygiad economaidd lleol.

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr a phartneriaid i'w cadarnhau

**Cost ddangosol**

I'w chadarnhau

**Amserlen**

Y byrdymor i'r tymor canolig

## MakerSpace Llanymddyfri

**Disgrifiad**

Parhau i addasu Canolfan Grefftau a Chaffi Llanymddyfri at ddibenion gwahanol, a hynny er mwyn creu a darparu mannau cydweithio, stiwdios bach ac ardal manwerthu. Mae La Patisserie (wedi'i leoli gyferbyn) wedi cymryd dwy uned. Bydd y ganolfan yn un o bileri canolog y broses o ailddychmygu canol y dref. Bydd yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer entrepreneuriaid lleol yn ei sector creadigol a chrefft. Bydd MakerSpace yn cynhyrchu gweithgarwch economaidd trwy gydol y flwyddyn, yn ailddiffinio gofod sy'n cael ei danddefnyddio, ac yn cyfuno â'r rhaglen digwyddiadau i sefydlu Llanymddyfri yn gadarn yn dref creu lleoedd. Bydd MakerSpace yn manteisio i'r eithaf ar dwf cynaliadwy, cefnogi cydweithredu, ac arloesedd a chynhyrchiant cynyddol.

**Sail Resymegol**

Mae Canolfan Grefftau Llanymddyfri mewn safle canolog yn y dref; ac eto, nid yw'n ychwanegu at gynnig y dref o ran manwerthu neu wasanaethau. Mae'r cynnig yn darparu cyfle i ailddychmygu Llanymddyfri ac addasu Canol y Dref a'i hadeiladau gwag/sy'n cael eu tanddefnyddio at ddibenion gwahanol i greu canolbwynt dynamig, entrepreneuraidd a chynaliadwy ar gyfer y cymunedau preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr ehangach.

**Astudiaeth Achos Enghreifftiol**

www.buildbrighton.com

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr (menter bosibl ar y cyd â phartner datblygu yn y sector preifat)

**Cost ddangosol**

£200,000

**Amserlen**

Y byrdymor i'r tymor canolig

## Ystad Ddiwydiannol Banc yr Eglwys

**Disgrifiad**

Ymchwilio i gyfleoedd (a liferi cyllido) i gyflymu buddsoddiad yn y seilwaith er mwyn datgloi tir i'w ddatblygu gerllaw Ystad Ddiwydiannol Banc yr Eglwys. Y nod fydd darparu gofod newydd ar gyfer diwydiant ysgafn a/neu swyddfeydd i BBaChau sy'n tyfu, neu fuddsoddiad mewnol.

**Sail Resymegol**

Ystad Ddiwydiannol Banc yr Eglwys yw'r prif barth cyflogi ar gyfer y dref, ac mae'n cynnwys nifer o fentrau bach, e.e. Cambrian Pet Foods. Mae seilwaith yn gydran hanfodol, sy'n cynnwys safleoedd a thir ac adeiladau cyflogaeth. Dylai camau gael eu cymryd i ddatblygu seilwaith busnes o safon er mwyn gwireddu potensial yn y dyfodol a mynd i'r afael â chyfyngiadau mewn perthynas â gofod gwaith cyfyngedig a'r risg o lifogydd.

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr (Seilwaith cyfalaf a Thir ac asedau)

**Cost ddangosol**

I'w chadarnhau

**Amserlen**

Y Tymor Canolig

# Blaenoriaeth 2: Ailfywiogi proffil a chynnyrch twristiaeth y dref

Mae'r economi ymwelwyr yn sector cyfleoedd allweddol. Mae lleoliad y dref, wrth ymyl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn darparu cyfleoedd i gynyddu ei chyfran o'r buddion economaidd. Trwy ddatblygu cynlluniau i frandio Llanymddyfri yn Hwb Beicio, mae'n bosibl y gellid datblygu'r segment hwn o'r farchnad sydd â gwerth uchel.

**Mae'r flaenoriaeth twf yn adeiladu ar gynlluniau cyfredol i ddarparu pecyn unigryw o 'gynhyrchion neu brofiadau' â ffocws penodol ar hamdden a gweithgareddau awyr agored, sy'n diwallu anghenion marchnadoedd y dyfodol. Y nod yw cynyddu nifer yr ymwelwyr a hyd eu harhosiad trwy ddarparu profiadau, cynhyrchion a gweithgareddau o ansawdd. Ffocws canolog fydd cynyddu proffil y dref a'r ymwybyddiaeth ohoni yn gyrchfan o ansawdd uchel ar gyfer ymwelwyr; lle hynod i ymweld ag ef.**

Mae'r proffil a'r manteision economaidd a ddaw yn sgil cynnal Eisteddfod yr Urdd yn 2023 (a ohiriwyd oddi ar 2021) yn sylweddol. Trwy gymorth a mesurau rhagweithiol Swyddogion Trefi Marchnad, ynghyd â rôl bwysig a chyfrifoldeb Menter Dinefwr i feithrin ymwybyddiaeth o'r modd y gall gynorthwyo busnesau lleol, mae angen i'r gymuned fod yn ymwybodol, yn effro ac yn barod am y cyfle.



| Amcanion a Chanlyniad | Camau Gweithredu | Adnodd Dangosol | Gweithio gyda |
|---|---|---|---|
| • **Rhoi hwb i adferiad y sector twristiaeth a lletygarwch yn y dref**<br><br>**Canlyniad Allweddol – cyfradd methiant busnesau yn gostwng a swyddi'n cael eu diogelu** | Sefydlu Tîm Twristiaeth i lunio cynllun gweithredu ar gyfer y sector twristiaeth, a fydd yn cynnwys ymgyrch ragweithiol i hyrwyddo Llanymddyfri | Mewn nwyddau ac adnodd ar gyfer y cynllun gweithredu a'r ymgyrch | Cyngor Sir Gâr – Cymorth Busnes a grwpiau Adfer Busnesau |
| | Darparu seilwaith hwb o ansawdd sy'n addas i feiciau, i gynnwys amrywiaeth o gyfleusterau beicio. | £120,000 o gyfalaf | Cyngor Tref Llanymddyfri<br>Y Tîm Twf |
| | Cynnal astudiaeth ddichonoldeb fanwl a llunio Achos Busnes i asesu'r broses o gynllunio a datblygu profiad parc antur awyr agored unigryw yn Llanymddyfri. | £60,000 o gyfalaf (astudiaeth ddichonoldeb) | Busnes Cymru<br>Croeso Cymru<br>Croeso Sir Gâr<br>Menter Dinefwr |
| | Cefnogi ac annog y gwaith o ddarparu llety hunanddarpar o ansawdd (yn cynnwys llety sy'n addas i feicwyr) trwy ddarparu pecyn cymorth/canllawiau sy'n gysylltiedig â graddio ansawdd. | Mewn nwyddau gyda chymorth ar gyfer cronfa llety strategol | |
| | Pecyn Cymorth Digwyddiadau Llanymddyfri. Adolygu'r pecyn cymorth a ddiweddarwyd yn ddiweddar yng ngoleuni'r pandemig parhaus, a cheisio ei roi ar waith. | Cronfa gyfalaf ar gyfer y gronfa digwyddiadau strategol | |
| | Adfywio 'brand' Llanymddyfri i adlewyrchu 'profiad' awyr agored newydd, gwell. | £15,000 o gyfalaf | |
| | Gosod stand/hysbysfwrdd digidol wrth byrth y dref i hyrwyddo busnesau, gwasanaethau ac atyniadau. | £10,000 | |
| | Rhwydwaith Twristiaeth Cymunedol Llanymddyfri. | Mewn nwyddau | |
| | Dechrau cynllunio ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2023 – nodi gallu lleol ymhlith y gymuned fusnes leol, darpariaeth ychwanegol, cymorth ar gyfer y Gymraeg (megis cynllun busnes Helô Blod trwy Fenter Dinefwr), ynghyd â chymorth busnes parhaus i sicrhau bod sefydliadau yn ymwybodol o'r cyfle ac yn gallu manteisio i'r eithaf arno. Adolygu'r gofynion o ran y seilwaith, ac archwilio faint o ddiddordeb a photensial sydd mewn sicrhau bod mesurau/buddsoddiad dros dro yn fwy parhaol. | Mewn nwyddau/i'w gadarnhau | |

# Prosiectau â blaenoriaeth

## Hwb Beicio Llanymddyfri

**Disgrifiad**

Datblygu'r cynnyrch beicio er mwyn cynnig profiadau a seilwaith newydd a denu cynulleidfaoedd newydd. Y nod yw datblygu clwstwr a màs critigol o gynnyrch mewn un lleoliad, a gwella cysylltedd rhwng yr hybiau a'r amrywiaeth o lwybrau o amgylch y dref trwy ddarparu seilwaith hwb o ansawdd sy'n addas i feiciau. Bydd yr 'hwb' yn cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau beicio, o storfa feiciau a gwasanaeth cynnal a chadw, i fan golchi beiciau, cyfleusterau newid a gwybodaeth i ymwelwyr, ac ati. Bydd yr hwb yn cynnwys darpariaeth i logi beiciau, gan gynnwys e-feiciau, a hynny mewn hybiau allweddol.

Mae yna botensial i leoli'r hwb yn Amgueddfa Llanymddyfri a'r Porth Ymwelwyr, sydd eisoes yn darparu gwasanaeth gwybodaeth i ymwelwyr, neu'n agos ati. Ateb byrdymor fyddai gosod tri chynhwysydd a seiliau – darparu tri chynhwysydd dosbarthu (12 m) o ansawdd gradd A.

Uned 1: Derbynfa/pwynt gwybodaeth a llogi
Uned 2: Storfa feiciau
Uned 3: Gweithdy beiciau
Wedi'u tirlunio gyda theras/ardal wybodaeth awyr agored.

**Sail Resymegol**

Mae Llanymddyfri yn cael ei chydnabod yn brif leoliad ar gyfer beicio, sy'n cynnig amrywiaeth o lwybrau beicio ar y ffordd ac oddi ar y ffordd, gan gynnwys llwybrau 'arwyr' megis Gwylltir y Gorllewin. Ac eto, nid oes yna siop feiciau na seilwaith cymorth i ddatblygu'r cynnyrch neu ddenu cynulleidfaoedd newydd.

**Astudiaeth Achos Enghreifftiol**

www.hassopsstation.co.uk

Mae hen adeilad yr orsaf wedi cael ei drawsnewid yn brif hwb beicio ar y Monsal Trail, ac mae'n darparu ystod o wasanaethau o ansawdd i gefnogi beicwyr a theuluoedd, gan gynnwys gwasanaeth llogi a thrwsio beiciau, caffi ac ardal eistedd fawr y tu allan. Mae cwmni Monsal Trail Cycle Hire yn cynnig beiciau ac e-feiciau.

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr, Cyngor Tref Llanymddyfri ac Amgueddfa Llanymddyfri a'r Porth Ymwelwyr (y dull tebygol fyddai caffael gweithredwr trydydd parti i gynnal yr hwb)

**Cost ddangosol**

£120,000 o gyfalaf

**Amserlen**

Y byrdymor

## Parc Antur Llanymddyfri

**Disgrifiad**

Cynnal astudiaeth ddichonoldeb fanwl a llunio Achos Busnes i asesu'r broses o gynllunio a datblygu profiad parc antur awyr agored unigryw yn Llanymddyfri. Yr uchelgais yw creu parc antur ysbrydoledig sy'n annog ymwelwyr a phobl leol i archwilio a dathlu Llanymddyfri a'r cefn gwlad o'i hamgylch. Byddai'r ganolfan yn ategu'r cynnyrch beicio cyfredol i gynnwys gweithgareddau eraill ar y tir ac ar y dŵr. Gallai'r ganolfan gael ei datblygu'n 'hwb' i farchnad dablwyr, gan ddarparu profiadau blasu i bobl sy'n ymweld â'r ardal, ac, yn benodol, fod yn borth i archwilio ardal ehangach y Bannau Brycheiniog a thu hwnt. Byddai'r astudiaeth yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Dyluniad â hynodrwydd lleol, i gyd-fynd â nodweddion arbennig y dirwedd
- Hyfywedd masnachol – denu ymwelwyr/apelio i weithredwyr
- Creu lle – adlewyrchu nodweddion unigryw Llanymddyfri ac Afon Tywi
- Deinamiaeth/bywiogrwydd – mae yna fwrlwm a chyffro i'r Parc
- Rhoi gwerth ar antur awyr agored, yn enwedig marchnad y dablwyr
- Cynllun a darpariaeth gynaliadwy ac arloesol

Nod yr astudiaeth yw llunio Briff Datblygu gweledigaethol, wedi'i gefnogi gan Gynllun Busnes amlinellol cadarn, y gellir ei ddefnyddio yn sail i raglen ddatblygu ac i helpu i gyfiawnhau penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer y Cyngor a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus.

**Sail Resymegol**

Mae twristiaeth gweithgareddau yn cynrychioli llinyn pwysig, sy'n tyfu, o ran sector twristiaeth y DU, ac mae Llanymddyfri yn cynnig amgylchedd naturiol eithriadol. Mae'r dref yn parhau i ddatblygu'r cynnyrch beicio, ond mae yna gyfleoedd i estyn cyrhaeddiad y farchnad trwy ddefnyddio asedau naturiol eraill, gan gynnwys gweithgareddau ar y dŵr ar Afon Tywi. Mae twristiaeth antur yn debygol o barhau i dyfu ar ôl COVID-19, gyda'r potensial i effeithio ar yr economi, y gymdeithas/llesiant a'r amgylchedd. Gallai cyfleuster o'r fath sicrhau mai Llanymddyfri yw'r dewis cyntaf ar gyfer ymwelwyr sy'n chwilio am ddihangfa ddelfrydol sy'n cyfuno amrywiaeth eang o weithgareddau awyr agored yng Nghanolbarth Cymru.

**Astudiaeth Achos Enghreifftiol**

www.cwmcarnforest.co.uk

Er ei bod wedi'i lleoli mewn coedwig, mae Cwm-carn wedi datblygu amrywiaeth o brofiadau awyr agored (Y Triongl Antur) a llety i ymwelwyr (podiau).

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr

**Cost ddangosol**

£60,000 o gyfalaf (astudiaeth ddichonoldeb)

**Amserlen**

Y byrdymor

## Menter Llety Llanymddyfri

**Disgrifiad**

Cefnogi ac annog y gwaith o ddarparu llety hunanddarpar o ansawdd (yn cynnwys llety sy'n addas i feicwyr) trwy ddarparu pecyn cymorth/canllawiau sy'n gysylltiedig â graddio ansawdd. Ystyried goblygiadau gorgyflenwi yn y byrdymor mewn rhai sectorau llety. Wedi'i dargedu at y canlynol:

- Perchnogion ffermydd a pherchnogion tir eraill sy'n ystyried cyflwyno unedau hunanddarpar arloesol (podiau pren, pebyll mewn coed, cytiau bugeiliaid)
- Ystafelloedd mewn tafarnau
- AirBnB a thebyg

**Sail Resymegol**

I ddenu'r farchnad gwyliau byr, mae angen i Lanymddyfri gynyddu gallu o ran llety yn y dref gydag unedau deniadol o ansawdd uchel mewn lleoliadau hygyrch.

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr a Chyngor Tref Llanymddyfri

**Cost ddangosol**

Mewn nwyddau gyda chymorth ar gyfer cronfa llety strategol

**Amserlen**

Y Tymor Canolig

## Addasu Pecyn Cymorth Digwyddiadau Llanymddyfri

**Disgrifiad**

Mae Pecyn Cymorth Digwyddiadau Llanymddyfri yn adnodd ymarferol i helpu trefnwyr digwyddiadau i drefnu a chynnal digwyddiadau llwyddiannus, sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn y dref. Mae'r pecyn cymorth yn darparu gwybodaeth, safonau a chanllawiau hanfodol, ynghyd â gwybodaeth i helpu trefnwyr i gynnal digwyddiadau diogel, o ansawdd uchel, sydd wedi'u rheoli'n dda, mewn byd ôl-COVID.

Bydd yn bwysig cynllunio a darparu digwyddiadau presennol a rhai newydd, yn enwedig yng ngoleuni'r cynlluniau i gynnal Eisteddfod yr Urdd yn y dref y 2023.

Gallai'r prosiect gynnwys cronfa digwyddiadau strategol fach i gefnogi a hwyluso digwyddiadau newydd yn y dref, yn ogystal â gwaith dichonoldeb i nodi a dynodi gofod digwyddiadau awyr agored a rhaglen ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau chwaraeon a pherfformiadau yn y dref, sy'n gallu cynnal seilwaith digwyddiadau a mynediad i nifer mawr iawn o ymwelwyr.

**Sail Resymegol**

Mae digwyddiadau yn bethau pwerus. Mae ganddynt y gallu i sicrhau mantais gystadleuol i Lanymddyfri a fydd o fudd i ddelwedd, economi, a pherfformiad twristiaeth y dref, yn ogystal â'i photensial ar gyfer y dyfodol. Er gwaethaf y cyfyngiadau, mae yna ymrwymiad o hyd i gefnogi'r broses o gynllunio a darparu digwyddiadau sy'n denu ymwelwyr i'r dref.

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr a Chyngor Tref Llanymddyfri.

**Cost ddangosol**

Cronfa gyfalaf ar gyfer y gronfa digwyddiadau strategol

**Amserlen**

Y byrdymor

## Marchnata Llanymddyfri

**Disgrifiad**

Adfywio ‘brand’ Llanymddyfri i adlewyrchu'r ‘profiad’ awyr agored newydd a gwell ôl-COVID. Creu brand sy'n cyfateb i weithgarwch ymgyrchu ledled y sir, megis targedu natur dymhorol marchnadoedd a gwariant eilaidd. Dylai hyn gynnwys:

- Datblygu a darparu cynllun marchnata annibynnol ar gyfer Llanymddyfri, yn seiliedig ar brofiad awyr agored o ansawdd
- Amlinellu gweithgareddau marchnata, i gynnwys:
- Proffil digidol, gan gynnwys gwell gwefan a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol (ynghyd â blogiau a fforymau beicio mynydd)
- Dylunio, argraffu a dosbarthu llyfryn hyrwyddo
- Hysbysebu targededig ar-lein
- Gweithio gyda chyhoeddiadau'r diwydiant (Croeso Cymru)
- Croesawu ymweliadau gan flogwyr a dylanwadwyr y cyfryngau cymdeithasol
- Mentrau'n ymwneud â thrywyddau penodol, e.e. rhaglen o ymchwil i gwsmeriaid er mwyn deall eich ymwelwyr ac: (a) llywio mentrau marchnata yn y dyfodol (b) meincnodi'r profiad (c) nodi cyfleoedd yn y dyfodol i ddatblygu cynnyrch. Bydd y sylfaen dystiolaeth hon yn helpu gyda'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol

Bydd elfen allweddol o'r gwaith hwn hefyd yn ymwneud â chydgysylltu'r gweithgareddau marchnata a gweithio mewn partneriaeth â'r busnesau, y gweithrediadau a'r prosiectau gwahanol.

Bydd gofyn cydweithio â Croeso Sir Gâr a Croeso Cymru i feithrin proffil ‘ledled y rhanbarth’.

**Sail Resymegol**

Mae'r rhaglen buddsoddi cyfalaf gyffredinol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor yn arwyddocaol. Heb farchnata creadigol, bydd yn anodd denu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd (yn ogystal ag ailymgysylltu â chymunedau lleol ac ymwelwyr blaenorol).

Mae angen cyflwyno gwefan ffeithiol, addysgiadol i hyrwyddo'r ardal yn well, yn enwedig yr angen am gyfeiriadur busnesau lleol a rhestr gynhwysfawr o opsiynau o ran gwybodaeth i dwristiaid, gan gynnwys: Rhestr o ddarparwyr llety lleol; Gwestai; Mannau i aros; Bwytai/llefydd bwyta; Gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol; Gweithgareddau chwaraeon a hamdden; Llefydd i ymweld â nhw; a hyrwyddo'r hanes lleol cyfoethog.

**Arweinydd**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod y rôl bwysig y mae twristiaeth yn ei chwarae yn yr economi leol, ac mae ganddo dîm twristiaeth mewnol profiadol. Y cam naturiol fyddai i'r tîm twristiaeth ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygu strategaeth farchnata ac adfywio'r brand.

**Cost ddangosol**

£15,000 o gyfalaf

**Amserlen**

Y byrdymor a pharhaus

## Stondin/hysbysfwrdd digidol

**Disgrifiad**

Gosod stondin/hysbysfwrdd digidol wrth byrth y dref i hyrwyddo busnesau, gwasanaethau ac atyniadau ymwelwyr yn Llanymddyfri a'r cyffiniau, e.e. safle ar y Stryd Fawr (yr A40) gyferbyn â Gelli Deg.

**Sail Resymegol**

Yn gysylltiedig â phrosiect Marchnata Llanymddyfri. Heb weithgarwch marchnata ategol, bydd yn anodd denu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd (a hefyd ailymgysylltu â chymunedau lleol ac ymwelwyr blaenorol).

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr a Chyngor Tref Llanymddyfri

**Cost ddangosol**

£10,000/cytundeb hirdymor gyda busnes arbenigol

**Amserlen**

Y byrdymor

## Rhwydwaith Twristiaeth Cymunedol Llanymddyfri

**Disgrifiad**

Gweithio gyda busnesau twristiaeth i ddatblygu'r Rhwydwaith Twristiaeth ac annog ymrwymiad y diwydiant i ddatblygu cyrchfannau, yn ogystal ag annog gwyliau wedi'u pecynnu, cynigion eraill a marchnata ar y cyd wedi'i ffocysu ar Lanymddyfri yn ei rôl o fod yn gyrchfan awyr agored arweiniol. Hyrwyddo a datblygu rhaglenni cymunedol ar gyfer symud y Rhwydwaith Twristiaeth Cymunedol yn ei flaen, e.e.

- Hyfforddiant sgiliau
- Hyfforddi llysgenhadon
- Menter gymunedol cyfleoedd gwirfoddol
- Sefydlu cronfa datblygu twristiaeth gymunedol

**Sail Resymegol**

Mae cyrchfan cyfrifol a chynaliadwy yn croesawu busnesau, yr amgylchedd lleol a chymunedau lletya yn llwyr yn y broses o'i ddatblygu. Bydd y prosiect yn llwyddo oherwydd bod pobl leol yn gallu gweld manteision twristiaeth, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr a busnesau twristiaeth (gan gynnwys 'hyrwyddwr' busnesau twristiaeth lleol). Efallai estyn cylch gwaith gweithgor y cynllun beicio peilot

**Cost ddangosol**

Adnodd mewn nwyddau

**Amserlen**

Y byrdymor

# Blaenoriaeth 3: Ailddychmygu canol y dref

Mae canol y dref yn rhan hanfodol o wead economaidd a chymdeithasol Llanymddyfri, ac eto mae COVID-19 yn dal i gael effaith sylweddol ar ei chanolfan manwerthu. Mae'n cynnwys nifer o'r sectorau a gafodd eu taro waethaf (ac sy'n parhau i gael eu taro waethaf) gan y pandemig; y rheiny sy'n dibynnu ar gyswllt uniongyrchol â'r cwsmer, er enghraifft y sectorau lletygarwch, twristiaeth, hamdden a diwylliannol.

**Mae angen cymryd camau i gefnogi busnesau i ailagor, meithrin hyder a chroesawu siopwyr ac ymwelwyr yn ôl i Lanymddyfri, gan gynnwys ffocysu ymdrechion ar farchnata lleoedd a manteisio ar yr enillion sy'n deilio o ailgydio mewn masnachu.**

Ond mae hefyd angen i ni adfywio canol y dref i fynd i'r afael â'r tueddiadau a oedd eisoes yn effeithio ar ganol y dref. Mae canol y dref wedi colli nifer sylweddol o siopau a gwasanaethau traddodiadol, ond mae wedi cadw craidd o wasanaethau ac asedau cyhoeddus. Dylai'r dref fod yn ganolbwynt camau gweithredu i gryfhau'r economi leol.

**Yn ogystal â denu cyfuniad o ddefnydd masnachol ochr yn ochr â defnydd manwerthu, dylid hefyd ymdrechu i annog rhagor o bobl i ddod i'r dref, er enghraifft trwy raglen bendant o ddigwyddiadau. Gallai rhagor o integreiddio a chydgysylltu leddfu baich trefnwyr unigol a chreu effaith fwy. Dylai gwestai a darparwyr llety gymryd rhan a gweithio gyda threfnwyr er lles ei gilydd.**

Er mwyn denu a chadw pobl dalentog, mae angen sicrhau darpariaeth ddigonol a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol, sy'n cael eu colli'n araf mewn nifer o drefi a phentrefi gwledig. Dylai'r dref gadw a dosbarthu elfen fwy o wasanaethau cyhoeddus a, lle bo hynny'n bosibl, defnyddio ei hasedau i gynnal twf economaidd.

| Amcanion a Chanlyniad | Camau Gweithredu | Adnodd Dangosol | Gweithio gyda |
|---|---|---|---|
| • **Cefnogi'r dref i adfer yn ei rôl o fod yn gyrchfan manwerthu o dan y themâu blaenoriaeth canlynol:**<br>- **Hybu hyder busnesau a chwsmeriaid**<br>- **Cymorth i fusnesau a datblygiad digidol**<br>- **Y strydlun a thir y cyhoedd**<br>- **Ailddychmygu canol y dref**<br>- **Gwybodaeth am ganol y dref**<br><br>**Canlyniad Allweddol – canol tref Llanymddyfri i ffynnu trwy ddarparu profiad diogel a bywiog** | Creu a gweithredu ymgyrch i feithrin hyder yn y dref ar gyfer marchnadoedd sy'n bodoli a marchnadoedd newydd | £1,000 | Cyngor Sir Gâr – Grŵp Adfer Canol y Dref |
| | Datblygu Cynllun Teyrngarwch Llanymddyfri, ynghyd â chyfeiriadur manwerthu a lletygarwch i ddangos bod Llanymddyfri yn ddiogel ac yn agored i fusnes | Mewn nwyddau a chyllid hyrwyddo | Cyngor Tref Llanymddyfri<br>Y Tîm Twf – manwerthwyr |
| | Datblygu mannau diogel dynodedig ar hyd y Stryd Fawr, a darparu'r seilwaith angenrheidiol i hwyluso rhaglen reolaidd o siopau dros dro â thema | £4,000 | Croeso Sir Gâr<br>Menter Dinefwr |
| | Drysau Agored – treialu'r defnydd o eiddo gwag yng nghanol y dref ar gyfer gweithgareddau manwerthu/gwasanaethau newydd. | £10,000 (gan gynnwys y pot adnewyddu cyfalaf) | |
| | Datblygu a churadu rhaglen o ddigwyddiadau, gweithgareddau diwylliannol, gwyliau Cymreig a digwyddiadau cymunedol (gan sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol), er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n galw heibio a meithrin hyder yn Llanymddyfri, e.e. 'gŵyl' y Nadolig, gan ddefnyddio grwpiau ac ysgolion lleol i greu rhaglen o gerddorion crwydrol/berfformwyr stryd, sinema awyr agored, digwyddiadau bwyd, ac ati | Mewn nwyddau a £5,000 ar gyfer marchnata a hyrwyddo | |
| | Gwaith peintio fel mater o drefn mewn modd tebyg i'r tai lliwgar sy'n hyrwyddo Dinbych-y-pysgod, Aberaeron a Llandeilo | i'w gadarnhau | |

## Prosiectau â blaenoriaeth

### Drysau Agored Llanymddyfri

**Disgrifiad**

Treialu'r defnydd o eiddo gwag yng nghanol y dref at ddefnydd gweithgarwch manwerthu/gwasanaethau newydd. Bydd Drysau Agored yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat (perchnogion eiddo) a fydd yn cynnig gofodau mewn unedau manwerthu gwag i entrepreneuriaid ifanc a grwpiau cymunedol, fel y gallant brofi syniadau busnes, gwneud cynhyrchion a sicrhau newid cadarnhaol i ganol y dref.

**Sail Resymegol**

Mae angen cymryd camau i ailddefnyddio gofodau gwag yng nghanol y dref i gefnogi busnesau i ailagor a meithrin hyder.

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr (Seilwaith cyfalaf a Thir ac asedau) a pherchnogion tir

**Cost ddangosol**

£10,000 (gan gynnwys y pot adnewyddu cyfalaf)

**Amserlen**

Y byrdymor i'r tymor canolig

# Blaenoriaeth 4: Seilwaith (digidol a datblygu)

Mae COVID-19 wedi cyflymu ein defnydd o dechnoleg ddigidol, ac wedi amlygu'r rôl hanfodol y mae cysylltedd digidol yn ei chwarae o ran cefnogi cydnerthedd cymunedau a pharhad busnesau ar adegau o argyfwng. Bydd angen cyflymu'r gwelliannau i seilwaith digidol y dref a'i chefnwlad er mwyn helpu adferiad yr economi ac adferiad ehangach, a chynnal twf cynaliadwy.

Mae seilwaith yn gydran hanfodol, sy'n cynnwys safleoedd a thir ac adeiladau cyflogaeth, tai, a mynediad at drafnidiaeth wledig. Bydd mynediad at fand eang a dulliau cyfathrebu symudol effeithiol, mannau gwaith a gwasanaethau lleol yn hanfodol o ran datblygu economi gynaliadwy.

**Dylai camau gael eu cymryd i ddatblygu seilwaith busnes o safon er mwyn gwireddu potensial yn y dyfodol a mynd i'r afael â chyfyngiadau mewn perthynas â gofod gwaith cyfyngedig, y risg o lifogydd a chysylltedd digidol.**

Lle bydd cyfleoedd yn codi, dylid ymchwilio i ddichonoldeb cyflymu buddsoddiad yn y seilwaith, ynghyd â nodi achosion ar gyfer darparu seilwaith uwch i ddatgloi datblygiad ac ymyrraeth cyfalaf y sector cyhoeddus i ddiogelu cyflogaeth (gan sicrhau tir ac adeiladau at ddefnydd economaidd yn y dyfodol neu i ddarparu tai).

**Mae tai addas a darpariaeth gymdeithasol yn hanfodol i ddenu a chadw teuluoedd. Mae yna ddiffyg o ran adeiladu tai hapfasnachol a fawr ddim tai newydd wedi cael eu datblygu yn Llanymddyfri yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf. Dylid annog a hwyluso'r gwaith o adeiladu tai newydd o ansawdd a safon uchel, ochr yn ochr â'r gwaith o ailddatblygu eiddo gwag er mwyn denu pobl i fyw a gweithio yn y dref. Gallai hyn gynnwys camau i arwain cynlluniau sy'n mynd i'r afael â gwaith sydd wedi'i oedi ar safleoedd tai.**

Mae gorlifdir Afon Tywi yn effeithio ar ddatblygiad yn y dref ac o'i chwmpas – bydd y risg o lifogydd (ynghyd â dulliau lliniaru) yn ystyriaeth bwysig i unrhyw waith datblygu newydd/ailddatblygu yn y dref. Ystyrir bod y ffioedd parcio yn anneniadol ar gyfer natur anffurfiol siopa yn y dref; nid yw'r gwaith o ailgynllunio'r prif faes parcio wedi cael ei dderbyn yn eang, ac mae pryderon wedi cael eu mynegi ynghylch anghenion cerbydau sy'n tynnu ôl-gerbydau a bocsys ceffylau, yn enwedig ar ddiwrnod y mart.

| Amcanion a Chanlyniad | Camau Gweithredu | Adnodd Dangosol | Gweithio gyda |
|---|---|---|---|
| • **Cefnogi cymunedau a busnesau i gael mynediad at well cysylltedd digidol**<br>• **Sicrhau bod buddsoddiad yn y seilwaith digidol yn y dref yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus**<br>• **Buddsoddiad o ran ymyrraeth cyfalaf/cyflymu seilwaith i ddiogelu cyflogaeth**<br>• **Denu pobl i fyw ac i weithio yn y dref**<br><br>**Canlyniad Allweddol – cyflawni canlyniadau twf economaidd yn llwyddiannus trwy wella seilwaith digidol y dref** | Cynllunio a gweithredu cynllun Tref Glyfar i wella technoleg ddigidol, er enghraifft defnyddio WiFi yn rhad ac am ddim, synwyryddion i dracio nifer y bobl sy'n mynd heibio, ap manwerthu ac arwyddion digidol 'amser real' | i'w gadarnhau | Cyngor Sir Gâr – cysylltedd digidol<br><br>Cyngor Sir Gâr – seilwaith cyfalaf<br><br>Cyngor Sir Gâr – tir ac asedau<br><br>Cyngor Tref Llanymddyfri<br><br>Y Tîm Twf<br><br>Croeso Sir Gâr<br><br>Darparwyr band eang<br><br>Perchnogion tir<br><br>Datblygwyr<br><br>Coleg Llanymddyfri |
| | Yn rhan o'r cynllun, dylunio a gweithredu 'sbringfwrdd' digidol i fusnesau i ddarparu diagnosteg ac ymyraethau digidol pwrpasol yn unol ag anghenion busnesau. | Mewn nwyddau | |
| | Asesu a datblygu cynlluniau i wella cysylltedd busnesau a'r gymuned trwy gynyddu band eang cyflym iawn | Mewn nwyddau | |
| | Meithrin ymwybyddiaeth o'r opsiynau sydd ar gael i fusnesau a phreswylwyr gwledig mewn perthynas â'u hopsiynau o ran cysylltedd, sy'n cynnwys cymorth i gyrchu mentrau band eang LlC, e.e. Cynllun talebau ABC, y cynllun Gigabit Gwledig | i'w gadarnhau | |
| | Hyrwyddo a chefnogi safleoedd tai/gwaith ailddatblygu tai | i'w gadarnhau | |
| | Gwerthuso'r cynllun peilot ar gyfer parcio rhad ac am ddim. Cytuno ar y camau nesaf, megis estyniad. Adolygu'r arfer o barcio am ddim sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a gynhelir yn y dref, er enghraifft **12 diwrnod parcio am ddim y flwyddyn** | i'w gadarnhau | |
| | Adolygu cynllun y prif faes parcio i ddarparu ar gyfer cerbydau mwy, coetsis a bysiau | i'w gadarnhau | |
| | Gweithio gyda darparwyr gwasanaethau trenau a bysiau i archwilio opsiynau i wella amlder ac amseru'r gwasanaethau i ddarparu opsiynau cymudo hyfyw ar gyfer patrymau cyflogaeth. | i'w gadarnhau | |
| | Ad-drefnu eiddo'r sector cyhoeddus i gadw neu ddenu cyflogaeth broffesiynol/fedrus | i'w gadarnhau | |
| | Gallai adeiladau sy'n wag ar hyn o bryd fod â defnydd deuol, e.e. yn y Coleg | i'w gadarnhau | |
| | Asesu cyfleoedd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a chynlluniau ynni cymunedol. Ôl-ffitio a chynnwys mewn cynlluniau datblygu | i'w gadarnhau | |

# Prosiectau â blaenoriaeth

## Hyrwyddo a chefnogi safleoedd tai

**Disgrifiad**

Nodi cyfleoedd i hyrwyddo/gefnogi safleoedd, datblygiad a seilwaith tai. Dyma enghreifftiau:

- Caeau Dolau/tir i'r gogledd o Dan y Crug (a werthwyd yn ddiweddar), sydd â chaniatâd cynllunio llawn ar gyfer 61 o dai, gyda 12 o'r rheiny'n dai fforddiadwy. E/26681 – Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar 06.06.2012 ar gyfer datblygiad preswyl, gan gynnwys y seilwaith cysylltiedig a gwaith tirlunio (y cynllun wedi'i addasu, gyda gostyngiad yn nifer y tai i 61)
- Tir cyfagos i Fryndeilog, Coedlan Tywi

Archwilio cyfleoedd ar gyfer cynllun hunanadeiladu, e.e. sicrhau bod lleiniau ar gael i bobl leol yn unig.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i ddatblygu 12 o dai fforddiadwy yn Llanymddyfri yn rhan o'i raglen ledled y sir.

**Sail Resymegol**

Mae tai addas a darpariaeth gymdeithasol yn hanfodol i ddenu a chadw teuluoedd. Mae yna ddiffyg o ran adeiladu tai hapfasnachol a fawr ddim tai newydd wedi cael eu datblygu yn Llanymddyfri yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf. Dylid annog a hwyluso'r gwaith o adeiladu tai o ansawdd a safon uchel, a hynny er mwyn denu pobl i fyw a gweithio yn y dref. Gallai hyn gynnwys camau i arwain cynlluniau sy'n mynd i'r afael â gwaith sydd wedi'i oedi ar safleoedd tai.

Yn gysylltiedig ag ymrwymiad Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n werth £150 miliwn, i ddarparu 932 o dai fforddiadwy (119 yn Ardal Weithredu Trefi Gwledig a Marchnad Sir Gaerfyrddin) a darparu 1,000 o gartrefi eraill (eiddo gwag/cefnogi landlordiaid, ac ati).

**Arweinydd**

Cyngor Sir Gâr gyda Pherchnogion Tir a Datblygwyr

**Cost ddangosol**

I'w chadarnhau

**Amserlen**

Y byrdymor i'r tymor canolig

# Blaenoriaeth 5: Pobl a Sgiliau – galluogi pobl i gyrchu gwaith a datblygu sgiliau i wireddu eu potensial

Mae diboblogi a phoblogaeth sy'n heneiddio yn faterion o bwys sy'n wynebu'r dref: a) gallai poblogaeth oedran gweithio fach gyfyngu ar dwf economaidd b) bydd cynnydd yn y boblogaeth ymddeoledig yn cynyddu'r galw am ofal ac iechyd cymdeithasol. Mae proffil sgiliau y dref yn heriol mewn perthynas â chefnogi busnesau sy'n tyfu. Mae cyflogau isel yn effeithio ar ddewis, ac yn adlewyrchu'r sectorau cyflog isel sy'n dominyddu'r ardal. Mae'n rhaid i'r cyflenwad sgiliau a llafur yn yr ardal ddiwallu anghenion busnesau, 'nawr ac yn y dyfodol.
Yn bwysicach fyth yw'r disgwyliad y bydd effaith economaidd y pandemig yn arwain at argyfwng cenedlaethol o ran cyflogaeth. Mae'n debygol mai'r bobl a fydd yn dioddef yr effeithiau mwyaf difrifol fydd y rhai hynny sydd eisoes dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur: swyddi sy'n talu'n isel, lefelau sgiliau is, telerau cyflogaeth mwy “brau”, a gweithwyr iau. Swyddi yn y sector twristiaeth a lletygarwch sydd wedi gweld yr effeithiau mwyaf yn sgil y pandemig.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau i sicrhau bod pobl leol (yn enwedig pobl ifanc) yn gallu cyrchu swyddi lleol, sy'n cynnwys sicrhau bod gan y bobl sgiliau ar gyfer sectorau allweddol.

| Amcanion a Chanlyniad | Camau Gweithredu | Adnodd Dangosol | Gweithio gyda |
|---|---|---|---|
| • **Sicrhau bod yr holl breswylwyr lleol yn ymwybodol o gynlluniau cymorth priodol, ac yn gallu eu cyrchu**<br>• **Sicrhau bod gan yr holl breswylwyr lleol y sgiliau i ddiwallu anghenion presennol busnesau lleol, yn ogystal â'u hanghenion yn y dyfodol**<br>• **Denu pobl i fyw ac i weithio yn y dref**<br><br>**Canlyniad Allweddol – lleihau diweithdra a thangyflogaeth, gan gynnwys ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol sydd fwyaf dan anfantais** | Sicrhau bod darparwyr lleol yn cynllunio ac yn darparu rhaglenni i gefnogi pobl i ddod o hyd i gyflogaeth yn y sectorau hynny sydd wedi tyfu yn ystod yr argyfwng<br><br>Gweithio gyda chyd-weithwyr a darparwyr hyfforddiant i hyrwyddo'r broses o recriwtio prentisiaid i fusnesau lleol<br><br>Prosiect ymchwil i nodi ac amlygu'r blychau sgiliau a'r heriau recriwtio mwyaf amlwg a wynebir gan fusnesau yn Llanymddyfri (ar draws Deg Tref?)<br><br>Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a mesurau i gefnogi busnesau | Mewn nwyddau<br><br>Mewn nwyddau<br><br>£2,000 | Cyngor Sir Gâr – Sgiliau<br><br>Cyngor Tref Llanymddyfri<br><br>Y Tîm Twf<br><br>Coleg Llanymddyfri<br><br>Coleg Sir Gâr<br><br>Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS)<br><br>Menter Dinefwr |

## Blaenoriaeth Drawsbynciol: Cyfathrebu, cydweithredu a grymuso

Er nad oes yna un sefydliad sy'n gyfrifol am ailddechrau, adfywio ac adnewyddu'r economi, mae ymatebion y llywodraeth wedi dibynnu i raddau helaeth ar awdurdodau lleol ochr yn ochr â phartneriaid allweddol dethol i ymgysylltu â'r gymuned fusnes a'i chefnogi. Bydd llwyddiant parhaus yn dibynnu ar raddau ac effeithiolrwydd y cyfathrebu a'r cydlynu rhwng y partneriaid hyn a busnesau – gan gryfhau'r broses gydweithredu, adeiladu sail dystiolaeth gadarn, a datblygu cynllun cyfathrebu. Mae'n hanfodol bod y gymuned fusnes a'r gymuned leol yn ymrwymo i'r cynllun adferiad economaidd. Er bod y cynllun yn cyd-fynd â chynlluniau cenedlaethol a sirol ar hyn o bryd (i sicrhau'r effaith fwyaf), bydd yn hanfodol i bartneriaid fod yn hyblyg, gan addasu ac ailosod y blaenoriaethau hyn yng ngoleuni unrhyw newidiadau yn y dyfodol, gan gynnwys y pandemig presennol a Brexit. Bydd penodi Swyddogion Trefi Marchnad sy'n siarad Cymraeg gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn rhan o'r Fenter Deg Tref, yn adnodd pwysig a defnyddiol.
Dylid ystyried ailsefydlu Siambr Fasnach Llanymddyfri a'r Cylch a/neu sefydlu tîm Cynllun Twf Economaidd.

| Amcanion a Chanlyniad | Camau Gweithredu | Adnoddau dangosol | Gweithio gyda |
|---|---|---|---|
| • **Deall ac ymateb i anghenion busnesau lleol trwy raglen ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol**<br>• **Cyfleu cynlluniau adfer a rhaglen weithredu Llanymddyfri i bartneriaid allweddol a'r gymuned fusnes**<br><br>**Canlyniad Allweddol – mae gan y gymuned fusnes leol lais cryf o ran llunio rhaglenni adfer, ynghyd â gweledigaeth a strategaeth newydd ar gyfer Datblygiad Economaidd** | Lansio'r Cynllun Twf i bartneriaid allweddol a'r gymuned fusnes yng Nghwmaman | mewn nwyddau | Cyngor Sir Gâr – Grŵp Adfer Canol y Dref<br><br>Cyngor Tref Llanymddyfri<br><br>Y Tîm Twf<br><br>Croeso Sir Gâr |
| | Penodi Swyddogion Trefi Marchnad | i'w gadarnhau | |
| | Llunio cronfa ddata o fusnesau Llanymddyfri i wella gwybodaeth am fusnesau a chefnogi gweithgareddau i ddatblygu busnesau yn y dyfodol | mewn nwyddau | |
| | Sicrhau bod tueddiadau lleol o ran iechyd economaidd a'r dangosfwrdd effeithiau yn gyfredol, gyda mewnbynnau gan fusnesau lleol a phartneriaid allweddol i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio polisïau a rhaglenni yn y dyfodol | mewn nwyddau | |
| | Cefnogi'r broses o ddatblygu Egin-dîm Twf Economaidd Llanymddyfri; darparu ysgrifenyddiaeth a chymorth gweinyddol ochr yn ochr â Chyngor Tref Llanymddyfri | mewn nwyddau | |

## Llywodraethu, Cyllido a Chyflawni

Trwy Grwpiau Adfer Cymunedol yr Economi Fusnes, bydd gan Gyngor Sir Caerfyrddin rôl allweddol o ran gweithredu a monitro'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu; gan ddarparu arweinyddiaeth ddinesig a chymunedol gref, helpu i feithrin cymuned fusnes ymgysylltiedig a gwybodus a defnyddio ei hasedau, ynghyd â dylanwad ac arbenigedd i gyflawni adferiad sy'n creu cyflogaeth o ansawdd ac economi leol gynaliadwy, gynhwysol a chydnerth.

Mae profiad COVID-19 wedi amlygu pwysigrwydd a llwyddiant gweithredoedd ar y cyd. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol, a dylid ystyried ac adolygu Cynllun Gweithredu ac Adfer Economi Leol Llanymddyfri yn y cyd-destun ehangach, yn arbennig y Cynllun Adfer Cenedlaethol a Strategaeth Adfer Sir Gaerfyrddin.
Ystyriaeth gynnar fydd pa gamau gweithredu a phrosiectau y gellir eu cyflawni ar draws sawl un (neu bob un) o'r Deg Tref i sicrhau darbodion maint ac effeithlonrwydd.

Bydd gan Egin-dîm Twf Economaidd Llanymddyfri, ynghyd â'r Cyngor Tref, rôl bwysig i'w chwarae wrth lunio a blaenoriaethu camau gweithredu, hyrwyddo'r cynllun sy'n dod i'r amlwg, ac ymgysylltu â'r gymuned fusnes trwy'r cam ‘adferiad’ hwn.
Pan fydd y cynllun wedi'i gadarnhau, bydd angen datblygu metrigau perfformiad manwl, a fydd yn dibynnu ar yr ymyraethau penodol yr ymgymerir â nhw.
Bydd yn hanfodol i bartneriaid fod yn hyblyg, gan addasu ac ailosod blaenoriaethau yng ngoleuni unrhyw newidiadau yn y dyfodol, gan gynnwys ton arall o'r pandemig.

Un agwedd bwysig yw'r modd y caiff hyn ei gyfleu ymhlith y gymuned fusnes. Mae ymateb yr awdurdod lleol ynghylch cymorth ariannol (ochr yn ochr â phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol) wedi cael sawl effaith gadarnhaol; gan alluogi busnesau i oroesi'r cyfnod hwn, sicrhau eu parhad (o leiaf yn y dyfodol agos), a chynnal hwyliau cadarnhaol. Gellir defnyddio cronfa ddata cysylltiadau yr awdurdod lleol (sydd wedi'i hatgyfnerthu'n sylweddol yn ystod y pandemig) yn y ffordd orau ar adeg pan nad yw'r sianeli i gyrraedd cynulleidfaoedd targed erioed wedi bod yn fwy amrywiol na phwerus.

Mae swm sylweddol o gyllid wedi cael ei ddyrannu i'r argyfwng uniongyrchol. Mae'n debygol y bydd y gwaith o gyflawni Cynllun Twf a Chynllun Adfer Llanymddyfri yn cael ei ariannu trwy amrywiaeth o ffynonellau, sy'n cynnwys rhaglenni cenedlaethol a'r sector preifat.
Lle bo angen cyllid gan yr awdurdod lleol, mae'n debygol y bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu i gyflawni'r prosiectau hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar yr economi leol.

## Mentrau newydd a chymorth busnes

Mewn ymateb i COVID-19, mae'r Cyngor Sir wedi sefydlu adnoddau sylfaenol i gefnogi adferiad a thwf trefi gwledig. Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhaglen LEADER y Cynllun Datblygu Gwledig, bydd amrywiaeth o fentrau newydd a chymorth busnes yn dod ar gael.

Mae'r cynlluniau adferiad a thwf yn bwysig oherwydd eu bod yn darparu tystiolaeth ategol o ran yr anghenion lleol, ac yn nodi'r amrywiaeth o gyfleoedd y gallai'r cronfeydd a'r adnoddau newydd hyn helpu i'w cyflwyno, sy'n cynnwys:

- Penodi **Swyddogion Trefi Marchnad** a fydd yn gweithio gyda threfi ac yn mynd ar drywydd camau gweithredu a nodir yn y cynlluniau adferiad a thwf economaidd.
- **Cyllid sbarduno** newydd i gynorthwyo timau cynllun twf y dref i ddatblygu datrysiadau arloesol i ddiwallu eu hanghenion uniongyrchol ac i fodloni eu huchelgeisiau o ran twf yn y dyfodol.
- **Cyllid cyfalaf** newydd i gefnogi syniadau a nodir yn y cynlluniau adferiad a thwf, a hefyd i gefnogi'r broses o ddatblygu busnesau newydd mawr eu hangen a chynyddu gofod cyflogaeth.
  **Cyllido Deg Tref – £1 miliwn**
- **Cronfeydd Grantiau Busnes** Cyngor Sir Caerfyrddin – cyfleoedd i fusnesau wneud cais am gymorth uniongyrchol trwy'r Gronfa Adferiad, y Gronfa Cymorth Refeniw, y Gronfa Mentrau Gwledig, y Gronfa Datblygu Eiddo Masnachol Trawsnewidiol, y Gronfa Dechrau Busnes a'r Gronfa Twf Busnesau.
  **Cronfa Datblygu Eiddo Masnacho Trawsnewidiol Sir Gaerfyrddin – £1 miliwn**
  **Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin – £500,000**
  **Y Rhaglen Trawsnewid Trefi (Buddsoddiad Adfywio Targededig blaenorol) – £1.2 miliwn**
  **Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnesau – £500,000**
  **Grantiau Dechrau a Thyfu Busnesau – £500,000**
  **Cronfa Cefnogi Sgiliau Busnes – £200,000**
- **Datrysiadau digidol y dref** – cyfres o fentrau i gefnogi busnesau a chymunedau i sicrhau cysylltedd cyflymach a mwy dibynadwy â'r Rhyngrwyd, a chyfaddasiad sy'n cynnwys cyfres o weminarau i helpu i adeiladu busnes llwyddiannus ar-lein a chymhwyso trefi CLYFAR digidol.
- **Seilwaith Cyfeillgar i Feiciau** sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer storio beiciau mewn lleoliadau allweddol, gan gynnwys cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus ac archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno gwasanaeth gwefru e-feiciau.
- Mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer **hynodrwydd/marchnata lleol**, sy'n cynnwys deunydd hyrwyddo wedi'i frandio a chynnwys cyfryngau cymdeithasol wedi'i baratoi ar gyfer pob tref.
- Strategaeth i gefnogi buddsoddiad lleol ym musnesau a mentrau yr **economi gylchol**.
- **Cynlluniau ynni lleol** – bydd Ynni Sir Gâr Cyfyngedig yn cefnogi cymunedau i nodi a chwmpasu safleoedd posibl ar gyfer cynhyrchu ynni newydd.

## Atodiad 1: Sir Gaerfyrddin Wledig

Mae Sir Gaerfyrddin wedi'i lleoli yn rhanbarth Dinas Bae Abertawe yng Ngorllewin Cymru. Mae'r Sir yn ymestyn dros arwynebedd o 2,370 km$^2$, ac mae ganddi boblogaeth o 187,568 (amcangyfrifon canol blwyddyn 2018 yr ONS ar gyfer y boblogaeth) a dwysedd poblogaeth o 79 o bobl fesul km$^2$. Mae poblogaeth y Sir wedi cynyddu 2% rhwng 2011 a 2018, o gymharu â chyfartaledd o 5% yng Nghymru. Mae amcanestyniadau'r boblogaeth i gefnogi adolygiad Cyngor Sir Caerfyrddin o'i Gynllun Datblygu Lleol Adneuo yn amrywio rhwng twf o 7.6% a 9.6% yn ystod 2018-2033. Sir Gaerfyrddin yw'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yn ôl arwynebedd, ac mae ganddi'r bedwaredd boblogaeth fwyaf yng Nghymru. Mae'n cynnwys 58 o wardiau etholaethol, a rennir ymhellach yn 112 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is.

Mae **Sir Gaerfyrddin wledig** yn cynnwys lleoliadau hynod o nodweddiadol a deniadol, gyda chyfuniad o drefi marchnad a lleoliadau manwerthu modern, ynghyd â thirweddau syfrdanol a threftadaeth a diwylliant cyfoethog ac amrywiol[1]. Mae ardaloedd gwledig yn cyfrif am tua 94% o'r Sir yn ôl maint, a thua 62% yn ôl poblogaeth.

Yn nhermau'r economi a chyflogaeth, mae gan Sir Gaerfyrddin **oruchafiaeth o fusnesau bach a micro**, sy'n hanfodol i gynaliadwyedd yr economi leol. Mae **twristiaeth, addysg, iechyd a'r diwydiannau creadigol** yn gynyddol yn ffurfio asgwrn cefn yr economi wledig, ochr yn ochr â **sectorau traddodiadol megis amaethyddiaeth**. Nid yw llawer o'r **sylfaen fusnes sefydledig yn perthyn i'r categori twf uchel** (mae'n bwysig cofio, nid yw hyn yn golygu nad oes gan fusnesau'r potensial i dyfu), gyda nifer yn **eiddo i deuluoedd**. Yn gyffredinol **cyfran gymharol isel o gyflogaeth y rhanbarth sydd mewn busnesau gwybodaeth ddwys**, ac mae'r gyfran yn llai fyth mewn ardaloedd gwledig. Er bod y gyfradd diweithdra ledled y boblogaeth oedran gweithio wedi parhau'n sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y bydd trywydd **adferiad a thwf economaidd yn dilyn patrwm o dwf heb swyddi**. Caiff hyn ei ddwysáu gan **gyfran uchel o'r boblogaeth oedran gweithio yn cael ei dosbarthu'n economaidd anweithgar**. Cydnabyddir ar lefel y sir fod angen sicrhau mynediad digonol at wasanaethau allweddol er mwyn denu a chadw pobl dalentog, gwasanaethau sy'n araf gael eu colli mewn nifer o drefi a phentrefi gwledig.

**Nodweddion a heriau allweddol Sir Gaerfyrddin wledig yw[2]:**

- Goruchafiaeth o fusnesau bach a chanolig eu maint, gydag 87% o'r busnesau yn cyflogi llai na 9 cyflogai
- Mae cyfran uwch yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau â gwerth ychwanegol is, megis amaethyddiaeth
- Mae mudo ymhlith pobl ifanc dalentog a medrus yn broblem allweddol i ardaloedd gwledig, sy'n cynnwys cyfran is o bobl 20-39 oed
- Treiddiad cyfyngedig y system drafnidiaeth gyhoeddus ac amlder y gwasanaeth
- Mynediad cyfyngedig i fand eang, ynghyd â band eang araf yn yr ardaloedd gwledig mwy anghysbell
- Diffyg lle ar gyfer cyflogaeth
- Mae pob ward wledig, ac eithrio tref Caerfyrddin a Llandeilo, yn y 30% mwyaf difreintiedig mewn perthynas â mynediad at wasanaethau
- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi disgyn 6.2% i 43.9%, sy'n golled o 11,165 o siaradwyr Cymraeg yn y sir rhwng 1991 a 2011.

**Mae camau gweithredu arfaethedig i gefnogi Sir Gaerfyrddin Wledig yn cynnwys:**


- Cefnogi'r broses o ddatblygu, cadw ac arbenigo busnesau
- Cefnogi gweithlu medrus ac uchelgeisiol
- Ceisio creu cynifer o swyddi â phosibl a gwella'r rhagolygon o ran cyflogaeth
- Cefnogi'r broses o feithrin economi wybodaeth
- Datblygu hynodrwydd ac apêl yr ardal o ran twristiaeth, buddsoddi mewn busnesau a mynd i'r afael â thlodi gwledig.




[1]Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin Wledig – Dogfen Gryno

[2]Cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015-2030 – Trawsnewidiadau

# Atodiad 2: Crynodeb economaidd-gymdeithasol ar gyfer Llanymddyfri




## Yr Ardal a'r Boblogaeth

- Mae Llanymddyfri yn cyfrif am 1.3% o boblogaeth y sir a 4.9% o'i thir
- Er bod Sir Gaerfyrddin wedi gweld twf o 2% (3,607) yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2018, mae Llanymddyfri wedi gweld gostyngiad o 4.8% (128) yn y boblogaeth, o 2,679 i 2,551.
- Mae ganddi gyfran lai o boblogaeth oedran gweithio na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol
- Mae cyfran y bobl o oedran gweithio yn gostwng
- Rhagwelir y bydd y grŵp oedran 65 a hŷn yn cyfrif am draean o'i phoblogaeth erbyn 2030.

## Y Cyflenwad Llafur

- Mae'r cyfraddau cyflogaeth yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol ...
- Gyda hunangyflogaeth yn cyfrif am ganran uwch o lawer
- Er bod gweithgarwch economaidd yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol (5% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol a 2% yn is na Sir Gaerfyrddin) ...
- Mae cyflogaeth hefyd yn is
- Mae myfyrwyr a phobl sydd wedi ymddeol yn cyfrif am dros hanner y rhai sy'n economaidd anweithgar
- Mae crefftau medrus yn cyfrif am bron chwarter y swyddi yn Llanymddyfri, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.
- Mae yna nifer sylweddol yn llai o swyddi proffesiynol a thechnegol cysylltiedig a swyddi gweinyddol ac ysgrifenyddol.

## Y Galw am Lafur

- Mae cyfran uchaf y swyddi yn Llanymddyfri yn y sector iechyd.
- Mae gan yr ardal gyfran uchel o 'weithgareddau llety a gwasanaeth bwyd', 'addysg' a'r 'celfyddydau, adloniant a hamdden' o gymharu â'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.
- Mae nifer y swyddi manwerthu, gweithgynhyrchu ac adeiladu yn amlwg yn llai.
- Mae dwysedd y swyddi ar gyfer Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr (yr etholaeth seneddol sy'n cwmpasu Llanymddyfri) ymhell o dan y cyfartaleddau lleol a chenedlaethol (17-30% yn is). Mae hyn yn dangos bod yna lai o swyddi fesul poblogaeth.
- Mae enillion wythnosol gweithwyr llawn-amser yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.
- Er bod enillion gweithwyr rhan-amser yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol, mae eu cyflog fesul awr yn dangos bod hyn yn ganlyniad i weithio mwy o oriau
- Mae incwm canolrifol aelwydydd ar gyfer Llanymddyfri, yn seiliedig ar ddata 'PayCheck' CACI ar gyfer 2018, yn £23,362, sef y 15$^{\text{fed}}$ isaf (o blith 58 o wardiau) yn Sir Gaerfyrddin; mae hyn 9.1% yn is na chanolrif Sir Gaerfyrddin, sef £25,488.

## Busnesau

- Mae cryn dipyn yn fwy o fentrau (93.6%) ac unedau lleol (93%) ar y lefel micro yn Llanymddyfri o gymharu â'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

## Budd-daliadau Diweithdra

- Mae canran y rhai sy'n hawlio budd-daliadau yn Llanymddyfri yn is na'r lefelau lleol a chenedlaethol.

## Cymwysterau a Sgiliau

- Mae nifer y bobl sydd heb unrhyw gymwysterau yn Llanymddyfri yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae'r rheiny sy'n meddu ar Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) lefel 4 ac uwch yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.

## Y Gymraeg

- Mae gan Sir Gaerfyrddin nifer sylweddol yn fwy o siaradwyr Cymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol – bron ddwywaith cynifer.
- Mae Llanymddyfri islaw cyfartaledd y sir o ran y rheiny sy'n gallu siarad Cymraeg, ond mae'r cyfartaledd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

## Tai

- Mae'r tai yn yr ardal yn cynnwys tai sengl a thai pâr yn bennaf. Y categori lleiaf yw carafanau neu adeiledau dros dro symudol eraill. Mae gan y ward 128 o eiddo sy'n eiddo i'r awdurdod lleol a 53 sy'n eiddo i Gymdeithasau Tai.

## Indecsau Amddifadedd Lluosog

- Mae gan ddwy Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Llanymddyfri – Llanymddyfri 1 (Cynghordy) a Llanymddyfri 2 (Coleg Llanymddyfri) – bryderon penodol ynghylch yr amgylchedd ffisegol a thai, ynghyd â phroblemau ynysig ynghylch mynediad at wasanaethau, addysg ac incwm. Mae Llanymddyfri 1 yn cael ei rhestru'n 43$^{\text{ain}}$ (o blith 112) yn Sir Gaerfyrddin ac yn 763$^{\text{ain}}$ (o blith 1,901) yng Nghymru. Mae Llanymddyfri 2 yn cael ei rhestru'n 71$^{\text{ain}}$ yn Sir Gaerfyrddin ac yn 1,067$^{\text{ain}}$ yng Nghymru.



*The means:* to change places for the better.


Welsh Office
Unit 3, 21-25 West End, Llanelli,
Carmarthenshire SA15 3DN
Phone: +44 (0)1554 780170

London Office
1st Floor, 28 Marshalsea Road,
London, SE1 1HF
Phone: +44 (0)20 7403 4135

www.themeans.co.uk